

Bwrdd Academaidd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol
Dydd Mercher, 16 Hydref 2013
Ystafell Gynadleddau, Y Llwyfan, Coleg Cymraeg Cenedlaethol, Caerfyrddin

Yn bresennol:

- Aelodau (Coleg): Dr Hefin Jones (Cadeirydd a Deon), Yr Athro Siwan Davies, Dr Dylan Foster Evans, Gwilym Dyfri Jones, Yr Athro Densil Morgan, Delyth Murphy, Yr Athro Gwynedd Parry, Dr Eleri Pryse, Gwerfyl Roberts, Yr Athro Deri Tomos
- Aelodau (Sefydliad): Nia Besley, Dr Anwen Jones, Dr Lisa Lewis, Dr Gina Morgan, Dr Angharad Naylor, Andrew Parry, Dr Siân Wyn Siencyn
- Aelodau (Myfyrwyr): Hollie Edwards, Greta Fflur Jâms, Siân Beynon Powell, Cara Llwyd Thomas
- Aelodau (Colegau Cymru): Carys Swain
- Swyddogion: Dr Ioan Matthews (Prif Weithredwr), Dr Dylan Phillips (Uwch Reolwr Academaidd) (ar ôl cinio), Dr Dafydd Trystan (Ysgrifennydd y Bwrdd), Nia Brown (Swyddog Datblygu)
- Ymddiheuriadau: Julie Brake, Dr Gwenno Ffrancon, Dr Carwyn Jones, Dr Elin Haf Gruffydd Jones, Huw Morris (ex-officio), Llinos Roberts, Dr Gwennan Schiavone, Dr Enlli Thomas

| Eitem | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod amser |
|---------------------------------------|--|----------------------------|---------------------|
| 1. Croeso a Sylwadau Agoriadol | 1.1. Croesawyd yr aelodau'n ffurfiol i'r cyfarfod gan y Deon. 1.2. Croesawyd Nia Besley (ar ran Dr Gwenno Ffrancon), Andrew Parry (ar ran Julie Brake), a chynrychiolwyr myfyrwyr newydd sef Hollie Edwards, Greta Fflur Jâms, Siân Beynon Powell a Cara Llwyd Thomas, i'w cyfarfod cyntaf. 1.3. Nodwyd llongyfarchiadau gwresog i Dr Carwyn Jones a Dr Enlli Thomas, aelodau o'r Bwrdd Academaidd, ar enedigaeth eu mab ac i Dr Gwennan Schiavone, o'r Coleg, a Gruff Ifan, cyn-Swyddog Cangen y Coleg, ar enedigaeth efeilliaid. | | |

| Eitem | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod amser |
|---|--|---|-----------------------|
| 2. Ymddiheuriadau a datganiadau o ddiddordeb | 2.1. Nodwyd ymddiheuriadau fel uchod. 2.2. Nid oedd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb i'w nodi. | | |
| 3. Cyflwyniad gan Brifysgol Cymru: Y Drindod Dewi Sant | 3.1. Cafwyd cyflwyniad gan Dr Siân Wyn Siencyn, Prifysgol Cymru: Y Drindod Dewi Sant, ar 'Pobl, prosiectau, stwff a stiwdants'. Diolchwyd iddi am ei chyfraniad cynhwysfawr a defnyddiol a oedd yn codi nifer o bwyntiau diddorol a phwysig. Cafwyd trafodaeth fer ac atodir y cyflwyniad pwynt pŵer i'r cofnodion. 3.2. Nodwyd diolch Coleg Penybont yn benodol i Dr Siân Wyn Siencyn a Phrifysgol Cymru: Y Drindod Dewi Sant am y gwaith allweddol o sefydlu'r cwrs Plentyndod Cynnar. 3.3. Yn ystod y drafodaeth a ddilynodd, rhoddodd y Prif Weithredwr diweddariad ar amserlen paratoi Cynllun Strategol newydd y Coleg a fydd yn weithredol o 1 Awst 2014. Bydd y Cynllun Strategol yn cael ei drafod yng nghyfarfodydd y Bwrdd Academaidd fel yn briodol. | | |
| 4. Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Gorffennaf 2013 | 4.1. Diolchodd y Deon i'r Is-Gadeirydd, Delyth Murphy a Gwilym Dyfri Jones am ddirprwyo ar ei ran yn sgil ei absenoldeb o'r cyfarfod diwethaf. 4.2. Adroddwyd y byddai cofnodion y cyfarfod diwethaf yn cael eu hadolygu yn sgil sylwadau'r aelodau. 4.3. Yn dilyn diwygio'r cofnodion cytunwyd i'w derbyn. | Swyddog Datblygu i ddiwygio'r cofnod a chylchredeg y cofnodion cyn y cyfarfod nesaf | Erbyn 5 Chwefror 2014 |
| 5. Aelodaeth | 5.1. Cafwyd adroddiad llafar ar gynrychiolaeth myfyrwyr ar y Bwrdd Academaidd ar gyfer y flwyddyn academaidd 2013/14. Nodwyd yr enwebwyd y canlynol: <ul style="list-style-type: none"> • Cynrychiolydd ôlraddedig - Siân Beynon Powell (Prifysgol De Cymru) • Cynrychiolwyr y De-ddwyrain - Cara Llwyd Thomas (Prifysgol Caerdydd) a Hollie Edwards | | |

| Eitem | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod amser |
|------------------------------|---|--|-----------------------|
| | <p>(Prifysgol Fetropolitan Caerdydd)</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cynrychiolydd y De-orllewin - Greta Fflur Jâms (Prifysgol Cymru: Y Drindod Dewi Sant) • Cynrychiolydd y Gogledd a'r Gorllewin - Rhun Dafydd (Prifysgol Aberystwyth) <p>5.2. Nodwyd mai un enwebiad a dderbyniwyd ar gyfer rhanbarth y De-orllewin a rhanbarth y Gogledd a'r Gorllewin.</p> <p>5.3. Adroddwyd bod sesiwn hyfforddiant ar gyfer cynrychiolwyr myfyrwyr wedi ei drefnu ar gyfer 22 Tachwedd. Adroddwyd bod trefniadau ar waith i sicrhau cynrychiolaeth myfyrwyr ar y paneli pwnc.</p> <p>5.4. Cytunwyd ymhellach i benodi Jacob Ellis, Swyddog Iaith Gymraeg, Undeb Cenedlaethol Myfyrwyr Cymru, fel sylwedydd ar y Bwrdd Academaidd. Cydnabuwyd ei waith wrth gynorthwyo gyda'r broses o sefydlu etholiadau'r myfyrwyr.</p> <p>5.5. Adroddwyd yn dilyn uno Prifysgol Cymru, Casnewydd â Phrifysgol Morgannwg i greu Prifysgol De Cymru fod aelodaeth Geraint Cunnick o'r Bwrdd Academaidd wedi dod i ben. Yn ogystal yn dilyn uno Prifysgol Fetropolitan Abertawe â Phrifysgol Cymru: Y Drindod Dewi Sant fod aelodaeth Phil Ainsworth wedi dod i ben. Cydnabuwyd eu cyfraniad ers sefydlu'r Bwrdd Academaidd.</p> <p>5.6. Adroddwyd ymhellach fod Dr Richard Wyn Jones, Prifysgol Caerdydd, wedi ymddiswyddo fel aelod o'r Bwrdd Academaidd. Adroddir ar ei olynydd maes o law.</p> | Swyddogion i enwebu olynydd | Erbyn 5 Chwefror 2014 |
| 6. Cynlluniau pynciol | 6.1. Cyflwynwyd adroddiad statws, gan y Cofrestrydd, ar y cynlluniau pynciol sydd eisoes wedi'u cyflwyno i'r Bwrdd Academaidd ar ffurf copi caled. Cytunwyd y byddai'r ddogfen hon yn cael ei diweddarau a'i chylchredeg ar gyfer pob cyfarfod o'r Bwrdd Academaidd o hyn ymlaen. | Diweddarau'r ddogfen cynlluniau pynciol a'i chyflwyno i bob cyfarfod | Parhaol |

| Eitem | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod amser |
|---|--|--|----------------------|
| | <p>Nodwyd y cynnydd cyffredinol yn yr holl bynciau a'r gobaith o gylchredeg y cynllun Hanes cyn y cyfarfod nesaf. Adroddwyd fod angen i aelodau'r panel Diwydiannau Creadigol gytuno ar egwyddorion y cynllun cyn y gellid ei gyflwyno i'r Bwrdd Academaidd.</p> <p>6.2. Trafodwyd pwysigrwydd sicrhau dilyniant darpariaeth o'r sector addysg bellach ym maes lechyd a Gofal.</p> <p>6.3. Cyfeiriwyd at adroddiad y Coleg ar Hyfforddiant Athrawon a gomisiynwyd gan y Llywodraeth a CCAUC ac a gyflwynwyd yng Ngorffennaf 2013. Adroddwyd fod y Coleg yn aros am ymateb y Llywodraeth ar yr argymhellion a dosberthir yr adroddiad i'r Bwrdd Academaidd maes o law.</p> <p>6.4. Cyflwynwyd y cynllun Nyrsio a chafwyd trafodaeth ddefnyddiol a oedd yn arddangos fod angen parhau â'r drafodaeth ymhellach. Derbyniwyd y cynllun mewn egwyddor gan nodi'r trafodaethau a'r targedau (adroddiad statws 3).</p> <p>6.5. Cyflwynwyd y cynllun Gwaith Cymdeithasol am y tro cyntaf a chafwyd trafodaeth fanwl gan nodi gofid yn benodol am ffigyrau, tablau a throednodiadau HESA. Derbyniwyd y cynllun mewn egwyddor gan nodi'r angen am drafodaethau pellach a gwirio data (adroddiad statws 3).</p> | <p>Cylchredeg adroddiad Hyfforddiant Athrawon i'r Bwrdd Academaidd</p> | <p>Chwefror 2014</p> |
| <p>7. Pwyllgor Cydweithio Academaidd</p> | <p>7.1. Cafwyd adroddiad llafar gan y Prif Weithredwr ar drafodaeth y Pwyllgor Cydweithio Academaidd, a gyfarfu ar 2 Hydref 2013.</p> <p>7.2. Bu'r pwyllgor yn trafod y broses o sicrhau fod gwybodaeth lawn gan y Coleg am y ddarpariaeth gydweithredol a gynigir o dan nawdd y Coleg. Adroddwyd y bydd y prosesau yn cael eu cadarnhau mewn ymgynghoriad â'r sefydliadau.</p> | | |

| Eitem | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod amser |
|---|--|---|--------------------|
| | <p>7.3. Croesawyd gwaith y pwyllgor a'i bwysigrwydd wrth ddiogelu ansawdd a phrofiad y myfyriwr.</p> <p>7.4. Nodwyd y Cylch Gorchwyl a chofnodion 3 Gorffennaf 2013, er gwybodaeth.</p> | | |
| <p>8. Adolygiadau Strategol (BA/13/05/07)</p> | <p>8.1. Atgoffwyd aelodau'r Bwrdd Academaidd o natur gyfrinachol y papur ar Adolygiadau Prosiectau Strategol.</p> <p>8.2. Gwahoddwyd yr aelodau i nodi argymhellion y paneli adolygu ynghylch y pedwar prosiect strategol a adolygwyd.</p> <p>8.3. Cafwyd trafodaeth ar y papur gan nodi pwysigrwydd y cylch adolygu, fod angen sefydlu'r egwyddor nad yw sefydliadau'n dibynnu ar y Coleg yn unig i gyllido addysg a darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Yn ystod y drafodaeth cyfeiriwyd at nifer uchel y ceisiadau a gyflwynir i'r Coleg a'r ffaith nad oes modd i'r Coleg gyllido pob prosiect teilwng a gynigir.</p> | | |
| <p>9. Cynllun Staffio Academaidd (BA/13/05/8a)</p> | <p>9.1. Cyflwynwyd y papurau ar Gynllun Staffio Academaidd y Coleg gan Dr Dylan Phillips.</p> <p>9.2. <u>Gweithdrefn Dyrchafiadau</u> - Cafwyd trafodaeth i gadarnhau'r weithdrefn ar gyfer ystyried amrywiadau i grantiau'r Coleg yn sgil dyrchafiadau.</p> <p>9.3. Cytunwyd â sylw Dr Elin Haf Gruffydd Jones, a gyflwynwyd o flaen llaw, yn nodi nad mater i'r Bwrdd Academaidd oedd cymeradwyo perfformiad staff academaidd unigol (pwynt 11) yn sgil natur gyfrinachol y broses. Awgrymwyd y dylid dirprwyo'r broses i'r Deon ac adrodd i'r Bwrdd Academaidd ar unrhyw faterion perthnasol.</p> <p>9.4. Derbyniwyd y weithdrefn gyda mân ddiwygiadau ac argymhellwyd y dylid cyflwyno'r papur eto ymhen blwyddyn gydag adroddiad cynnydd.</p> | <p>Papur ac adroddiad cynnydd mewn blwyddyn</p> | <p>Hydref 2014</p> |

| Eitem | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod amser |
|---|---|---------------------|--------------|
| (BA/13/05/8b) | <p>9.5. <u>Trefniadau ar gyfer Adolygu Swyddi Academaidd</u> - Derbyniwyd ac ystyriwyd papur ar y prosesau ar gyfer adolygu swyddi academaidd sydd bellach yn eu trydedd flwyddyn.</p> <p>9.6. Pwysleisiwyd yr angen i gynnal y broses mewn cydweithrediad agos â'r sefydliadau unigol ac i sicrhau cynrychiolaeth lefel uchel o'r sefydliadau yn y cyfarfod adolygu. Nodwyd y byddai angen i'r drafodaeth gynnwys ystyriaeth realistig ynghylch y trefniadau ar gyfer cynnal swyddi gan y sefydliadau, yn llawn neu'n rhannol, ar ddiwedd y cyfnod cychwynnol o bum mlynedd.</p> <p>9.7. Mynegodd rhai aelodau o'r Bwrdd bryderon ynghylch gallu sefydliadau i gynnal swyddi o'u hadnoddau eu hunain.</p> <p>9.8. Argymhellwyd cynnal y cylch cyntaf o adolygiadau, gan gychwyn yn Aberystwyth a Bangor a mireinio'r broses yn ôl yr angen, ac y dylid adolygu'r broses ymhen blwyddyn. Yn dilyn penderfyniad y Bwrdd y dylid cynnal yr adolygiadau hyn, nodwyd y byddai'r Coleg yn paratōi Cylchlythyr i'w anfon at y sefydliadau yn amlinellu'r broses ar gyfer cynnal yr adolygiadau.</p> | Adolygu'r broses | Mai 2014 |
| 10. Anrhydeddu arloeswyr addysg uwch | <p>10.1. Ystyriwyd cynigion ar gyfer anrhydeddu arloeswyr addysg uwch drwy wobrau blynyddol i'w dyfarnu gan y Coleg, sef:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gwobr am y traethawd doethuriaeth gorau wedi ei gyllido gan y Coleg; • Ysgrifennu erthygl ar lefel israddedig; • Hybu'r Gymraeg yn ein hysgolion; • Cyflwyno gwobr Hanes am y traethawd doethuriaeth gorau yn y Gymraeg. <p>10.2 Gofynnwyd am syniadau ychwanegol i'w cyflwyno o fewn wythnos i Nia Brown i'w rhoi gerbron y Bwrdd Cyfarwyddwyr.</p> | | |

| Eitem | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod amser |
|--|---|---------------------------|------------------------|
| | <p>10.3 Nodwyd fod teulu Eilir Hedd Morgan, darlithydd ar y Cynllun Staffio, a laddwyd mewn damwain yn gynharach eleni, wedi cyflwyno rhodd i sefydlu gwobr goffa. Bwriedir cyflwyno'r wobwr am y tro cyntaf yng nghyfarfod blynyddol y Coleg fis Chwefror 2014.</p> <p>10.4 Nodwyd fod pedwar enw posibl ar gyfer Cymrodoriaethau'r Coleg wedi'u cynnig i'w hystyried gan y Bwrdd Cyfarwyddwyr.</p> | | |
| <p>11. Cynllun Ysgoloriaethau Ymchwil</p> | <p>11.1. Cafwyd adroddiad llafar, gan Dr Dylan Phillips, ar y trefniadau newydd ar gyfer y Cynllun Ysgoloriaethau Ymchwil.</p> <p>11.2. Adroddwyd y derbyniwyd y nifer fwyaf o geisiadau erioed a bod y safon yn uchel. Dyfarnwyd 10 ysgoloriaeth ymchwil a bod nifer o'r deiliaid ar gwrs deuddydd yn Llanbedr Pont Steffan ar hyn o bryd fel rhan o'r rhaglen Sgiliau Ymchwil a ddarperir gan y Coleg.</p> <p>11.3. Nodwyd y byddai cylchlythyr ar gyfer y cylch dyfarnu nesaf yn cael ei dosbarthu'n gynt na'r llynedd gyda dyddiad cau ar 17 Ionawr 2014.</p> | | |
| <p>12. Materion i'w codi - Myfyrwyr</p> | <p>12.1. Nid oedd materion i'w codi gan y myfyrwyr.</p> <p>12.2. Rhoddwyd y cyfle i'r myfyrwyr, yn eu cyfarfod cyntaf, i gyflwyno eu hunain a'r pynciau a astudir ganddynt.</p> | | |
| <p>13. Materion i'w codi - Canghennau</p> | <p>13.1. <u>Cangen Prifysgol Bangor: Cyrsiau ehangu mynediad cyfrwng Cymraeg.</u> Cafwyd trafodaeth yn nodi bod hwn yn bwnc pwysig ac amserol i'r Bwrdd Academaidd er mwyn paratoi darpar-fyfyrwyr o gefndiroedd gwahanol ar gyfer astudio ym maes addysg uwch. Awgrymwyd y gallai Delyth Murphy baratoi dogfen ar gyfer trafodaeth bellach yn y cyfarfod nesaf.</p> <p>13.2. <u>Cangen Prifysgol Cymru: Y Drindod Dewi Sant:</u></p> | <p>DM i baratoi papur</p> | <p>5 Chwefror 2014</p> |

| Eitem | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod amser |
|--|--|--|--|
| | Adroddwyd fod y Swyddog Cangen, Gruff Ifan, wedi ei benodi'n aelod o staff Prifysgol Cymru: Y Drindod Dewi Sant ac y bydd Swyddog Cangen newydd maes o law. Diolchwyd yn ffurfiol iddo am ei waith gwerthfawr yn ystod ei gyfnod yn gweithio i'r Coleg. | | |
| 14. Materion yn codi | 14.1. Awgrymwyd yn y cyfarfod diwethaf y gellid gosod agenda a phapurau'r cyfarfod ar Sharepoint er hwylustod i'r aelodau. Adroddwyd fod y Swyddogion wedi trafod y mater gyda Swyddog Technoleg Gwybodaeth y Coleg ac y byddai'r Coleg yn ceisio treialu'r broses gyda phwyllgor ag aelodaeth lai, yn y lle cyntaf. | | |
| 15. UFA (BA/13/05/14) | 15.1. Cyflwynwyd papur ar ddatblygiadau adnoddau agored: Opsiynau cydweithio rhwng y Coleg a Wikipedia. Cafwyd trafodaeth a oedd yn arddangos barn wahanol ond argymhellwyd y dylid derbyn y cynnig a wnaed gan Wikipedia ar gyfer prosiect peilot ond heb fod y Coleg yn ymrwymo i unrhyw gamau pellach ar hyn o bryd. Cytunwyd y byddai'r Bwrdd yn derbyn adroddiad yn y cyfarfod nesaf wedi i'r Coleg gynnal trafodaethau gyda Wikipedia Cymru. 15.2. Memorandwm o gyd-ddealltwriaeth rhwng y Coleg a Cholegau Cymru. Penderfynwyd gosod yr eitem ar agenda'r cyfarfod nesaf er mwyn rhoi sylw teg iddi. | Adroddiad cynnydd Gosod yr eitem ar yr agenda nesaf | 5 Chwefror 2014 5 Chwefror 2014 |
| 16. Dyddiadau'r cyfarfodydd nesaf | 16.1. Nodwyd y dyddiadau canlynol ar gyfer blynyddoedd academaidd 2013/14 a 2014/15: <ul style="list-style-type: none"> • 5 Chwefror 2014, Aberystwyth • 7 Mai 2014, Caerdydd • 15 Hydref 2014, Prifysgol De Cymru • 4 Chwefror 2015, Caerfyrddin | | |

| Eitem | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod amser |
|--------------|--|----------------------------|---------------------|
| | <ul style="list-style-type: none"> • 13 Mai 2015, Prifysgol Glyndŵr | | |